Y Comisiwn Etholiadol

Canllawiau ar ymddygiad rhifwyr mewn mannau pleidleisio ac yn eu cyffiniau

Cyflwyniad

1.1 Mae'r canllawiau hyn yn cynnig cyngor i'r bobl hynny sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadau a refferenda ac sy'n ymgyrchu ynddyn nhw. Y nod yw sicrhau bod rhifwyr, asiantiaid, ymgeiswyr a staff gorsafoedd pleidleisio'n gwybod yn union yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol wrth ymgyrchu mewn mannau pleidleisio ac yn eu cyffiniau. Bwriad y canllawiau hyn yw hybu safonau ymddygiad priodol yn y DU drwyddi draw. Mae'n rhaid i asiantiaid sydd hefyd yn rhifwyr gydymffurfio â darpariaethau'r canllawiau hyn.

1.2 Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau; gan mai'r swyddogion hynny yn y pen draw sy'n gyfrifol am y ffordd y cynhelir etholiadau, mae eu penderfyniad yn derfynol.

1.3 Yn y canllawiau hyn:

- Ystyr 'man pleidleisio' yw'r adeilad lle mae'r gorsafoedd pleidleisio.
- Ystyr 'gorsaf bleidleisio' yw'r ystafell neu'r ardal mewn man pleidleisio lle bydd etholwyr yn bwrw'u pleidlais, ac mae honno'n cynnwys y bythau pleidleisio, y blwch pleidleisio a bwrdd y Swyddog Llywyddu. Ardal ar wahân yw'r orsaf bleidleisio a dim ond y rheini y caniateir iddynt fynd yno yn ôl y gyfraith a gaiff fynd i mewn iddi. Mae'n bosibl cael mwy nag un orsaf bleidleisio mewn man pleidleisio.

Rhifwyr

1.4 Fel rheol, gwirfoddolwyr ar ran yr ymgeiswyr yw'r rhifwyr. Bydd y rhifwyr yn sefyll y tu allan i'r mannau pleidleisio ac yn cofnodi rhif etholiadol yr etholwyr sydd wedi bwrw pleidlais. Drwy weld pa etholwyr sydd heb bleidleisio a throsglwyddo'r wybodaeth hon i'r ymgeisydd neu i'w gefnogwyr, bydd gan rifwyr rôl bwysig i'w chwarae mewn etholiad neu refferendwm. Wedyn, fe all yr ymgeisydd, neu ei gefnogwyr, gysylltu â'r etholwyr sydd heb fod i bleidleisio eto ar ddiwrnod yr etholiad a'u hannog i wneud hynny.

1.5 Rhaid i rifwyr beidio â rhwystro'r etholiad rhag cael ei weinyddu'n effeithlon ac yn ddiogel, a rhaid iddyn nhw gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Swyddog Canlyniadau neu'r Swyddog Llywyddu.

1.6 **Nid oes gan rifwyr unrhyw statws cyfreithiol ac mae gan bleidleiswyr yr hawl i wrthod rhoi gwybodaeth iddyn nhw.** Ni ddylid drysu rhyngddyn nhw â'r asiantiaid pleidleisio. Disgrifir y drefn ar gyfer penodi asiantiaid a'u hawliau yn y ddeddfwriaeth. Yn wahanol i asiantiaid pleidleisio, ni chaiff rhifwyr ddod i mewn i'r orsaf bleidleisio yn rhinwedd eu gwaith fel rhifwyr (gweler 'Lleoliad' isod).

Gweithgareddau rhifwyr

1.7 Yr unig beth y dylai rhifwyr fod yn ei wneud yw gwirio pwy sydd ar fin pleidleisio neu sydd wedi pleidleisio. Bydd hyn yn golygu gofyn yn gwrtais i bleidleiswyr am eu cerdyn pleidleisio, am eu rhif etholwr neu am eu henw a'u cyfeiriad. Caiff Swyddogion Canlyniadau ddweud wrth rifwyr y cân nhw ofyn i bleidleiswyr am wybodaeth naill ai wrth iddyn nhw fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio neu wrth iddyn nhw ymadael.

1.8 Os bydd pobl yn gofyn, dylai rhifwyr esbonio mai ymgyrchwyr ydyn nhw sy'n ceisio cael gwybod pwy yn union sydd wedi pleidleisio. Ni ddylid rhoi'r argraff y caiff unrhyw wybodaeth a roddir ei defnyddio at ddibenion swyddogol nac ychwaith eu bod wedi'u cyflogi gan y Swyddog Canlyniadau.

1.9 Ni ddylai rhifwyr arddangos na dosbarthu deunyddiau etholiadol (e.e. byrddau hysbysebu, posteri, placardiau na phamffledi) ar waliau nac o gwmpas y man pleidleisio. Dylid tynnu sylw'r Swyddog Llywyddu ar unwaith os bydd unrhyw ddeunyddiau fel hyn yn cael eu harddangos.

1.10 Mae Swyddogion Llywyddu yn gyfrifol am sicrhau bod etholwyr yn cael cyfle i fwrw'u pleidlais yn rhydd ac yn deg. Mater i'r Swyddog Llywyddu a'r Swyddog Canlyniadau fydd unrhyw benderfyniad ynglŷn â lleoliad neu ymddygiad rhifwyr; rhaid i rifwyr gydymffurfio â'u cyfarwyddiadau.

1.11 Rhaid i rifwyr beidio â cheisio darbwyllo etholwyr i bleidleisio nac ychwaith ddylanwadu neu ddwyn perswâd arnyn nhw i bleidleisio mewn rhyw ffordd arbennig. Ni chaiff rhifwyr hyrwyddo ymgeiswyr na phleidiau gwleidyddol penodol. Rhaid iddyn nhw beidio ag ymddwyn yn y fath fodd ag i ennyn honiadau eu bod yn dylanwadu'n amhriodol, e.e. trafod bwriadau pobl o ran pleidleisio, cysylltiadau â phlaid, hanes ymgeisydd, ymgyrchoedd etholiadol, na chyflawni'r un gweithgaredd arall sy'n benodol gysylltiedig ag un blaid neu ag un ymgeisydd penodol. Rhaid cyfeirio unrhyw ymholiad ynglŷn â'r broses etholiadol at y Swyddog Llywyddu.

1.12 Ni ddylid, ar unrhyw gyfrif, ofyn i bleidleisiwr fynd yn ôl i'r orsaf bleidleisio i ofyn am ei rif etholwr neu i gael ei gerdyn pleidleisio yn ôl. Nid oes yn rhaid i bleidleiswyr gydymffurfio ag unrhyw gais am wybodaeth. Rhaid i rifwyr beidio â phwyso ar bleidleiswyr os gwrthodir eu cais gwreiddiol am wybodaeth.

1.13 Gall rhifwyr atgoffa pleidleiswyr pan fyddant yn agosáu at yr orsaf bleidleio y bydd angen iddynt ddangos ID ffotograffig er mwyn cael papur pleidleisio, ond ni ddylai rhifwyr ofyn am gael gweld unrhyw ID ffotograffig eu hunain.

Nifer y rhifwyr

1.14 Ni ddylai'r un ymgeisydd gael mwy nag un rhifwr ar yr un pryd mewn gorsaf bleidleisio. Os oes mwy nag un orsaf bleidleisio mewn man pleidleisio a bod mynedfeydd ar wahân i'r gorsafoedd hynny, fe allai fod yn briodol cael rhifwyr wrth bob mynedfa, ond ni ddylid cael mwy nag un rhifwr ar gyfer pob ymgeisydd unigol. Ni ddylent fyth ymddwyn yn y fath fodd, ac ni ddylai fyth fod cynifer ohonyn nhw, nes eu bod yn cael eu gweld yn fygythiol.

Lleoliad

1.15 Rhaid i rifwyr aros y tu allan i'r man pleidleisio ei hun; dim ond at ddiben cyfreithlon bwrw'u pleidlais eu hunain, pleidleisio fel dirprwy, cynorthwyo pleidleisiwr anabl, neu gyflawni dyletswyddau eu penodiad fel asiant pleidleisio, asiant etholiad, neu ymgeisydd, y cân nhw fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio.

1.16 Caiff y Swyddog Llywyddu ganiatáu i rifwyr fynd i mewn i'r man pleidleisio (e.e. sefyll o dan bortico a mynedfeydd) ar yr amod eu bod y tu allan i'r orsaf bleidleisio ac nad ydyn nhw'n tarfu ar fynediad pleidleiswyr neu'n eu rhwystro. Rhaid i rifwyr beidio â gallu gweld na chlywed yr hyn sy'n digwydd y tu mewn i'r orsaf bleidleisio. Os un ystafell yn unig sydd yn y man pleidleisio, rhaid i rifwyr beidio, ar unrhyw gyfrif, â gofyn am gael mynd i mewn i'r ystafell honno, ac ni ddylid caniatáu iddyn nhw wneud hynny. Ni chaiff rhifwyr fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio ar unrhyw gyfrif yn rhinwedd eu swydd fel rhifwyr.

Cardiau pleidleisio

1.17 Yr unig beth y caiff rhifwyr ei wneud yw casglu rhifau etholwyr neu gardiau pleidleisio. Dylid rhoi cardiau pleidleisio a adewir ar ôl i'r Swyddog Llywyddu neu i'r Clerc Pleidleisio erbyn i'r bleidlais gau. Ni ddylid gofyn i staff pleidleisio drosglwyddo cardiau pleidleisio y mae pobl wedi'u gadael gyda nhw neu wedi'u rhoi yn y bin.

1.18 Caiff rhifwyr ddefnyddio cynhwysydd i bleidleiswyr adael eu cardiau pleidleisio ynddo, er mwyn eu helpu i wybod pwy sydd wedi pleidleisio yn ystod eu habsenoldeb. Ni ddylai'r cynwysyddion hynny beri rhwystr i bleidleiswyr wrth iddyn nhw fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio neu ymadael â hi. Rhaid dychwelyd y cynnwys i staff yr orsaf bleidleisio ar ôl i'r bleidlais gau.

Ymarweddiad

1.19 Caiff rhifwyr wisgo rhosynnau lliw neu fathodyn o faint rhesymol, gan fod hyn yn help i etholwyr drwy ei gwneud yn glir mai ymgyrchwyr ydyn nhw yn hytrach na swyddogion etholiadol. Caiff y rhosyn/bathodyn ddangos enw'r ymgeisydd a/neu arwyddlun neu ddisgrifiad; ni ddylai'r rhosyn/bathodyn gynnwys arwyddair ac ni ddylai fod yn rhy fawr.

1.20 Rhaid i rifwyr beidio â gwisgo, cario nac arddangos unrhyw wisg pen, esgidiau na dillad sy'n cynnwys unrhyw ysgrifen, llun nac arwydd arnynt sy'n berthnasol i unrhyw ymgeisydd neu blaid ac eithrio rhosyn.

Rhoi'r arweiniad hwn ar waith

1.21 O ran casglu rhifau etholwyr gan bleidleiswyr ar y ffordd i mewn i'r orsaf bleidleisio neu ar y ffordd allan ohoni, bwriedir i'r canllawiau hyn gael eu diwygio i gyd-fynd ag unrhyw ganllawiau neu gyfarwyddiadau a roddir gan y Swyddog Canlyniadau. Y Swyddog Canlyniadau yn y pen draw sy'n gyfrifol am gynnal etholiad; ac felly, mae ei benderfyniad yn derfynol. Mae pob Swyddog Canlyniadau unigol yn annibynnol ar yr awdurdod lleol pan fydd yn cynnal yr etholiad, a bydd yn bersonol gyfrifol am bopeth a gaiff ei wneud.

1.22 Ni ellir gorbwysleisio gwerth cytundebau lleol. Argymhellir y dylai'r Swyddog Canlyniadau drefnu i roi cyfarwyddiadau i bob asiant a rhifwr cyn gynted byth ag sy'n bosibl ar ôl cau'r enwebiadau gan gyfleu'r un neges i bawb dan sylw. Bydd hyn yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r amgylchiadau lleol ac yn cynnal yr ymgyrch o fewn yr un canllawiau. Mae'n bosibl osgoi problemau drwy dafod ymgyrchu mewn mannau pleidleisio ac yn eu cyffiniau ac ymddygiad rhifwyr. Gellir sicrhau consensws ymhlith y sawl sy'n bresennol ynglŷn â'r hyn sy'n dderbyniol, yn enwedig ynglŷn ag a ddylid casglu rhifau etholwyr wrth i bleidleiswyr fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio ynteu wrth ymadael â hi. Dylid rhannu'r canllawiau gyda'r pecynnau enwebu neu mewn cyfarfodydd briffio cyn yr etholiad.

1.23 Ar y diwrnod pleidleisio, efallai y bydd Swyddogion Canlyniadau'n ei chael hi'n hwylus rhoi posteri i Swyddogion Llywyddu sy'n dangos beth yw prif gyfrifoldebau rhifwyr. Gellid dangos y poster y tu allan i'r orsaf bleidleisio yn agos at y man lle bydd rhifwyr yn sefyll, a hynny er mwyn i rifwyr reoli eu gweithgarwch hwy eu hunain ac er mwyn rhoi gwybod i bleidleiswyr nad staff swyddogol yr orsaf bleidleisio ydyn nhw. Gellid rhoi'r poster hefyd i unrhyw rifwyr cyn y diwrnod pleidleisio er mwyn dweud wrthyn nhw'r hyn y gallan nhw'i wneud a'r hyn na allan nhw'i wneud. Bwriedir i'r poster gael ei ddefnyddio gan y Swyddog Canlyniadau yn unol â'r trefniadau lleol y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer casglu rhifau etholwyr.

1.24 Os oes amheuaeth ynglŷn â'r hyn y mae rhifwr yn ei wneud, dylai'r Swyddog Llywyddu neu'r Swyddog Canlyniadau ystyried: 'Beth fyddai barn arsylwr rhesymol?' yn unol â chyngor y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.[1]

Cwynion

1.25 Os daw cwyn am ymddygiad rhifwyr, dylai'r gweinyddwr etholiadol gysylltu â'r Swyddog Llywyddu a gofyn i staff yr orsaf bleidleisio sydd yno ymdrin â'r mater a'I fonitro. Mae gan Swyddogion Llywyddu y grym i gadw trefn yn yr orsaf ac fe gân nhw ofyn i unrhyw rifwr sy'n gwrthod cydymffurfio â'u cyfarwyddiadau fynd oddi yno.

1.26 Os na fydd modd cysylltu â'r Swyddog Llywyddu, neu os bydd gweithgareddau rhifwyr neu ymgyrchwyr yn parhau i achosi anawsterau, dylai aelod o staff y Swyddog Canlyniadau ymweld â'r man pleidleisio. Dylai'r aelod o'r staff siarad â'r

[1] Y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus: Safonau Ymddygiad mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, Trydydd Adroddiad. Cadeirydd: yr Arglwydd Nolan (Y Llyfrfa: Llundain, 1997).

Swyddog Llywyddu cyn mynd at yr ymgyrchwyr neu'r rhifwyr. Gellir atgoffa rhifwyr am y canllawiau hyn, gan roi copi iddyn nhw os bydd angen, a dweud wrthyn nhw ei bod yn drosedd dan y gyfraith etholiadol i neb amharu neu darfu ar unrhyw etholwyr cyn iddyn nhw bleidleisio.

1.27 Dylid dweud wrth rifwyr y gelwir yr heddlu os bydd y tarfu'n parhau. Dylid dweud wrth y Swyddog Llywyddu pa gamau a gymerwyd gan ofyn iddo fonitro'r sefyllfa a rhoi gwybod i'r swyddfa etholiadau os bydd unrhyw broblem eto. Dylid rhoi gwybod hefyd i asiant y blaid neu'r ymgeisydd y maen nhw'n ei gynrychioli.

1.28 Bydd hyn yn galluogi'r blaid neu'r ymgeisydd dan sylw i gymryd camau yn erbyn y rhifwyr hyn a sicrhau eu bod yn cael cyfarwyddiadau priodol cyn caniatáu iddyn nhw fod yn rhifwyr mewn etholiad neu refferendwm yn y dyfodol.